

Gwrthrychau hynod





Gwrthrychau hynod

Breichrwym

Rhywbeth i'w ddefnyddio ynghyd â bwa a saeth yw'r strap lledr yma. Byddai'n cael ei wisgo am waelod y fraich, gan osod y rhan fawr addurnol dros y tu mewn i'r fraich.

Byddai'r breichrwym yn cadw'r fraich rhag cael ei brifo gan llyn y bwa neu blu'r saeth wrth saethu. Byddai'n cadw dillad rhydd rhag cael eu dal yn llinyn y bwa hefyd.

Roedd breichrwymau'n cael eu gwneud o ledr fel arfer, ond fe allen nhw gael eu gwneud o unrhyw ddefnydd caled, fel ifori neu gorn.

Yn oes y Tuduriaid, byddai saethwyr proffesiynol yn gwisgo breichrwymau addurnol wedi'u mowldio. Câi'r rhain eu gwneud o ledr wedi'i drwytho mewn olew berwedig. Roedden nhw'n galed ac yn gryf ac yn parhau am flynyddoedd, ac fe fydden nhw'n gorchuddio gwaelod y fraich i gyd.

Cafodd y breichrwym lledr meddal yma ei gynllunio i'w ddefnyddio'n fwy achlysurol, ac mae'n addurnol yn ogystal ag yn ymarferol.



Sut rydyn ni'n gwybod am freichrwymau?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Cafodd breichrwymau tebyg i hwn, a breichrwymau o ledr wedi'i ferwi, eu codi o longddrylliad y *Mary Rose*, sef banerlong Edward VIII. Ceir enghraifft o freichrwym lledr wedi'i ferwi yng nghasgliad ar-lein yr Amgueddfa Brydeinig.



Gwrthrychau hynod

Canhwyllbren

Dyluniad o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg sydd i'r ganhwyllbren arian yma, yn unswydd i'w defnyddio ar fwrdd. Mae ganddi badell i ddal diferion cwyr, i'w cadw rhag gwneud difrod i lieiniau drud.

Cyn canol yr unfed ganrif ar bymtheg, roedd canhwyllbrenni naill ai'n sefyll ar dair coes heb badell diferion, neu ceid padell diferion ar waelod y ganhwyllbren i ddal y diferion wrth ichi gario'r ganhwyllbren.

Yng nghyfnod y Tuduriaid, roedd golau'n dod o fflaglau, y tân, canhwyllau gwêr a chanhwyllau brwyn. Dim ond mewn adeiladau mawr o garreg fel cestyll ac eglwysi yr oedd fflaglau'n addas; roedd golau'r tân yn rhy wan i ddarllen neu weithio wrtho; felly roedd y rhan fwyaf o bobl gyffredin yn defnyddio canhwyllau gwêr neu ganhwyllau brwyn.

Byddai'r bobl dlotaf yn defnyddio canhwyllau brwyn, oedd yn cael eu creu drwy drochi brwyn mewn braster cig oen neu olew, a chanhwyllau rhad

wedi'u gwneud o wêr (sef braster anifeiliaid wedi'i rendro). Doedd y canhwyllau hyn ddim yn rhoi golau cryf na chyson, ac roedden nhw'n drewi wrth losgi.

Roedd pobl gyfoethog yn defnyddio canhwyllau oedd wedi'u gwneud drwy drochi wic o liain mewn cŵyr gwenyn. Roedd y canhwyllau hyn yn llogi'n llachar ac yn gyson, ac yn creu aroglau pêr wrth losgi.



Sut rydyn ni'n gwybod am ganhwyllbrenni â phadellau diferion?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Mae canhwyllbrenni tebyg i'w gweld mewn amgueddfeydd a thai hanesyddol.



Gwrthrychau hynod

Dirwynydd

Mae gan y teclyn pren yma far canolog, a dau groesfar ym mhob pen, a'r rheiny ar ongl o 90° i'w gilydd. Byddai dirwynydd fel hyn yn cael ei ddefnyddio i ddirwyn cenglau o edafedd, drwy afael yn y bar canolog a dirwyn yr edafedd mewn cylch o amgylch pedair 'cornel' y dirwynydd. Mae pen un o'r croesfarrau yn wastad ar ei ochr, i'w gwneud yn haws i'r gengl gael ei thynnu.

Roedd angen i edafedd gael eu codi oddi ar y werthyd neu oddi ar y bobin ar y droell nyddu, a'u dirwyn yn genglau yn barod i gael eu golchi, eu lliwio, eu storio neu eu gwerthu. Gallech wneud cenglau o'r un faint á'i gilydd drwy gyfrif sawl gwaith roedd yr edafedd yn cael eu dirwyn o amgylch y dirwynydd.

Yng nghyfnod y Tuduriaid, roedd edafedd yn cael eu gwneud o wllân, neu o ffeibrau llysiâu fel lliain, cywarch neu ddanadl.



Sut rydyn ni'n gwybod am ddirwynwyr?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Mae darlun Pieter Pietersz o 1570: *Dyn a Dynes wrth y Droell Nyddu* yn dangos dirwynydd yn glir. Mae dirwynyddion yn dal i gael eu defnyddio heddiw.



Gwrthrychau hynod

Llaswyr

Yr enw ar y llinyn yma o leiniau asgwrn a phren yw llaswyr. Mae dwy ystyr i'r gair llaswyr: mae'n golygu cyfres o weddïau mewn trefn a hefyd y llinyn o leiniau sy'n cael ei ddefnyddio i gyfri'r gweddïau.

Roedd llawer o fathau o laswyrâu, bob un ar gyfer cyfres wahanol o weddïau. Ar y llaswyr yma mae 40 o leiniau gwyn yn cynrychioli'r Ave Maria (Gweddi Mair), ac mae'r pum glain du yn cynrychioli'r Paternoster (Gweddi'r Arglwydd). Byddai pob glain yn cael ei gyffwrdd yn ei dro a byddai'r weddi briodol yn cael ei hadrodd. Byddai'n cymryd tua deg munud i adrodd y llaswyr yma ac roedd yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn credu bod hynny'n benyd effeithiol (sef gweithred o edifarhau am eich pechodau).


Cafodd gweddïo â llaswyr ei wahardd gan y Brenin Henry VIII ym 1538. Adferodd y Frenhines Mary Gatholigiaeth yng Nghymru, Lloegr ac Iwerddon

rhwng 1553 a 1558, ond cafodd Catholigiaeth ei gwahardd eto o dan Elizabeth I ym 1570, a chafodd y llaswyr ei gwahardd ym 1571.



Sut rydyn ni'n gwybod am laswyrâu?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Cafodd llaswyrâu eu codi o longddrylliad y *Mary Rose*, banerlong Edward VIII, a chopi o un o'r rheiny yw hwn. Mae llaswyrâu'n dal i gael eu defnyddio gan Gatholigion heddiw.



Gwrthrychau hynod

Gwahanydd

Mae llawer o dyllau wedi'u creu yn y darn crwn yma o ledr. Roedd y tyllau mân o amgylch yr ymyl yn fodd i'r gwahanydd gael ei wnïo i mewn i gawell saethau. Roedd y tyllau mawr yn y canol yn cadw bwlch rhwng pob saeth yn y gawell, gan atal y plu ar y saethau rhag cael eu gwasgu neu eu difrodi. Roedd hynny'n bwysig iawn am nad yw'r saeth yn hedfan yn gywir os yw'r plu wedi cael niwed.



Sut rydyn ni'n gwybod am wahanyddion?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol. Cafodd gwahanyddion saethau eu codi o longddyliad y *Mary Rose*, banerlong Edward VIII, a chopi o un o'r rheiny yw hwn.

